# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Gwasanaethau Arlwyo

**SWYDD:** Cogydd Cynorthwyol – Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr

**GRADD Y SWYDD:** GR05

**YN ATEBOL I'R:** Cogydd

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Cynorthwyo'r Cogydd ym mhob dyletswydd wrth sicrhau gwasanaeth arlwyo effeithlon, cost effeithiol ac o ansawdd i bob cwsmer yng Nghanolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr gan gynnal gofynion deddfwriaethol o ran Iechyd a Diogelwch, a Diogelwch a Hylendid Bwyd ar bob adeg.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynllunio'r fwydlen, rheoli dognau, paratoi, coginio a chyflwyno prydau bwyd ar gyfer y gwasanaeth.
- Rheoli hylendid yn y gegin, Iechyd a Diogelwch, a diogelwch eiddo yn unol â pholisi, deddfwriaeth y cyngor a safonau sicrhau ansawdd.
- Hyfforddiant sefydlu ac asesu staff gan gynnwys goruchwylio staff a rota gwaith.
- Archebu a derbyn cyflenwadau a rheoli stoc.
- Dyletswyddau ariannol a gweinyddol yn unol â pholisi'r cyngor.
- Gweithredu cynllunio hyrwyddo i sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael y prydau bwyd.
- Cyfathrebu â'r tîm arlwyo, rheolwyr, a defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai.  Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Manyleb y Person

## Cogydd Cynorthwyol – Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon.  Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Profiad blaenorol ym maes arlwyo. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| | • Dyfarniad Lefel 2 Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo. | Ydy | |
| | • Dyfarniad Lefel 3 Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (rhoddir hyfforddiant). | | |
| | • Codi a Chario. | | |
| | • NVQ2 neu gymhwyster cyfatebol. | | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio mewn amgylchedd arlwyo. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. | | |
| | • Safonau uchel o ofal cwsmeriaid. | | |
| | • Gwybodaeth am iechyd a diogelwch. | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Safonau uchel o ofal cwsmeriaid. | | |
| | • Gweithio fel rhan o dîm, arwain drwy esiampl gan ysgogi staff i sicrhau cyn lleied o drosiant â phosibl. | Ydynt | |
| | • Sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu da. | | |
| | • Lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb. | Ydynt | |
| | • Hunangymhelliant. | | |
| | • Hyblyg oherwydd gall oriau gwaith newid i weddu i anghenion y busnes. | Ydynt | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |